# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Iau, 29 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd S.L. Davies (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
D.M. Cundy, C.A. Davies, W.R.A. Davies, H.L. Davies, B.W. Jones, B.A.L. Roberts, A.Vaughan Owen and J.G. Prosser (In place of S. Matthews)

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
A.G. Morgan

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
J. Willis, Rheolwr Gwasanaethau Tai (Cyngor a Dewisiadau)
S Jenkins, PhysIcal Regeneration Strategic Programme Manager
A Bowen, Arweinydd Buddsodi yn ein Tai
T Peregrine, Datblygu Economaidd Cydlwydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 - 11.35 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Howells, H.I. Jones, S. Matthews, H. Shepardson a G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. CANOL TREF LLANELLI - ADFYWIO

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad am waith adfywio yng Nghanol Tref Llanelli. Mae hwn yn cyd-fynd â gwaith Tasglu Llanelli a oedd wedi ceisio ysgogi twf a buddsoddiad yng nghanol y dref dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd hynny'n cynnwys cefnogi masnachwyr, lleihau nifer yr eiddo gwag a masnachol, rhoi hwb i fusnesau, hyrwyddo canol y dref fel lle i fyw, gweithio, siopa ac ymweld ag ef, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a chan sicrhau ei fod yn lân ac yn hygyrch i bawb.

Nododd y Pwyllgor fod y mentrau/cronfeydd canlynol wedi'u sefydlu/sicrhau i helpu i gyflawni'r nodau a'r cynigion adfywio ar gyfer canol tref Llanelli a'r sir gyfan:-

- Darparu rhaglen Stryd Cyfleoedd;
- Cynllun Benthyciadau Canol Tref;
- Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin;
- Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewid Sir Gaerfyrddin;
- Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod y cyflwyniad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn am Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd nad oedd y cynlluniau'n benodol i Lanelli a'u bod ar gael yn y sir gyfan. Cyfanswm y cyllid a oedd ar gael oedd £500,000, ac yr oedd unrhyw ddyfarniad o'r grant yn amodol ar nifer o feini prawf cymhwyso.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr adeilad eglwys sydd wedi'i ddifrodi gan dân yn Stryd Murray, Llanelli, dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd y gallai ymchwilio i'r sefyllfa bresennol o ran yr eiddo hwnnw.
- Cyfeiriwyd at hygyrchedd canol y dref ar gyfer beicwyr a gofynnwyd am eglurdeb ynghylch y sefyllfa bresennol o ran llunio mapiau gwybodaeth sy'n cyfeirio beicwyr o'r llwybr arfordirol i ganol y dref. Cadarnhawyd, er bod nifer o bwyntiau mynediad at ganol y dref wedi'u creu, fod rhaid gwneud gwaith ychwanegol i hysbysebu'r llwybrau hynny.

  Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Hamdden fod yr Awdurdod yn paratoi strategaeth feicio sir gyfan. Yr oedd hynny'n cynnwys sefydlu grŵp beicio sy'n ynnwys SUSTRANS, Grwpiau Gwirfoddol a'i Is-adran Cyfathrebu gyda'r nod o ddatblygu dull cydlynus tuag at feicio yn y Sir, a byddai hynny'n cynnwys cyhoeddi map beicio.

  Yn deillio o'r uchod, cyfeiriwyd at gynnwys sefydliadau allanol megis y Gymdeithas Dreftadaeth er mwyn cael cyswllt â thwristiaeth ac annog mwy o ymwelwyr i ddod i ganol y dref i hyrwyddo atyniadau megis Plas Llanelly a Pharc Howard ar yr hysbysfyrddau gwybodaeth am dreftadaeth sydd yn yr ardal.

- Cyfeiriwyd at yr effaith y gallai'r ardrethi busnes masnachol ei chael ar gynigion ailddatblygu canol y dref. Cadarnhawyd, yn dilyn ymarfer ailbrisio a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ailbrisio ym mis Ebrill y llynedd, fod lefel yr ardrethi ar gyfer eiddo yng nghanol y dref wedi lleihau'n sylweddol, hyd at ddwy ran o dair mewn rhai achosion. Yr oedd un o'r gostyngiadau mwyaf yng Nghymru yn Stryd Stepney a Stryd Vaughan.
- Cyfeiriwyd at y gwaith sy'n cael ei wneud i adnewyddu eiddo yng nghanol y dref ac a yw'r Cyngor, fel landlord, wedi mabwysiadu gofyniad bod tenantiaid yn hyrwyddo dwyieithrwydd yn eu harwyddion ac ati. Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd y byddai'n adolygu'r sefyllfa bresennol o ran gofynion y cyngor ar gyfer dangos arwyddion dwyieithog ac ati ar safle unrhyw siop a osodir fel rhan o gynllun Adfywio Tref Llanelli ac yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am y canlyniad.
- Mewn ymateb i gwestiwn am yr amser sydd ei angen er mwyn prosesu ceisiadau am Grant Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu

Busnes Sir Gaerfyrddin, dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd mai'r gobaith oedd y gallent gael eu prosesu o fewn mis ar ôl dod i law, yn amodol ar yr holl wybodaeth angenrheidiol gan yr ymgeisydd wrth wneud y cais.

- Cyfeiriwyd at Gam 3 Benthyciadau Canol Tref ac a oed ar gael i'w dyrannu yn Rhydaman. Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd mai dyna oedd y sefyllfa, ond nid oedd dim cais wedi'i dderbyn hyd yn hyn i'w wario ar brosiectau yn Rhydaman.

  Yn deillio o'r uchod, gofynnwyd a ellid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa yn Rhydaman. Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd fod Arweinydd y Cyngor, yng nghyfarfod y Cyngor ar 14 Chwefror, wedi rhoi gwybod i'r Cyngor am waith y tasgluoedd a sefydlwyd ar gyfer canol trefi Llanelli a Rhydaman a hefyd am waith grŵp Datblygu Tref Caerfyrddin. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd y gallai drefnu cael cyflwyniad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol am waith adfywio ar gyfer Rhydaman a Chaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y cyflwyniad.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD AMCANION LLESIANT 2017/18 CWARTER 3 - 1AF EBRILL I'R 31AIN O RAGFYR 2017

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Perfformiad Amcanion Llesiant 2017/18 ar gyfer Chwarter 3 i'w ystyried gyda golwg ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2017.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn am nifer yr ymwelwyr â chanolfannau hamdden y Cyngor, sy'n is na'r disgwyl, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y dangosydd dan sylw yn fesur cenedlaethol sy'n cynnwys cwsmeriaid sy'n talu a heb fod yn dalu ac yn cynnwys y cyfleusterau eraill a reolir gan yr awdurdod megis parciau. Er bod y ffigurau wedi cynyddu 45,000 o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd, yn ogystal â chynnydd cyfatebol mewn incwm, nid oeddent wedi cyrraedd y targed a gallai hyn fod yn gysylltiedig â nifer yr ymwelwyr â chyfleusterau awyr agored. Fodd bynnag, byddai'r ffigurau'n cael eu dadansoddi ymhellach er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau dros beidio â chyrraedd y targed.
- O ran y cynigion i ddatblygu ystod o opsiynau i wobrwyo tenantiaid am ofalu am eu cartrefi eu hunain, cadarnhaodd y Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod cynigion yn cael eu datblygu, gyda golwg ar eu cyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol. Gallai'r rheiny gynnwys, er enghraifft, gwobrwyo'r tenantiaid sy'n cadw eu cartrefi mewn cyflwr addurnol da, sy'n talu rhent ar amser neu sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol.
- Ymatebodd y Rheolwr Cyngor a Chymorth Tenantiaeth i gwestiwn am nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl a dywedodd fod tua 600 yn cael eu darparu bob blwyddyn, ac mai'r amser a gymerir er mwyn eu darparu o fewn stoc tai'r Cyngor yw 50 diwrnod ar gyfartaledd. Fodd bynnag, gallai'r amser a gymerir yn y sector preifat fod yn hwy o lawer, gan mai perchennog y tŷ, nid y Cyngor, sy'n gyfrifol am gomisiynu adeiladwr i ymgymryd â'r gwaith. Cadarnhaodd fod y

Cyngor yn monitro ansawdd y gwaith a wneir ac nad oedd prosiectau yn cael eu cymeradwyo os nad oedd y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

- Ymatebodd y Rheolwr Cyngor a Chymorth Tenantiaeth i gwestiwn am ddigartrefedd a chadarnhaodd fod yr Adran yn ymgymryd ag asesiadau rheolaidd ynghylch nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd, a nodwyd yn yr un diweddaraf fod 11 o unigolion o'r fath. O'r rheiny, darparwyd llety i hanner ohonynt ac yr oedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r lleill. Yr oedd strategaeth digartrefedd newydd yn cael ei pharatoi hefyd, mewn ymgynghoriad â'r sector gwirfoddol, i'w chyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at themâu ymgyrchoedd amrywiol o ran twristiaeth e.e. y Flwyddyn Chwedlau, Blwyddyn y Môr 2018 a Blwyddyn Darganfod Cymru Gyfan 2019 ac a yw'r awdurdod yn elwa ar y rheiny. Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod yr awdurdod yn gallu cynllunio i gyflwyno pob thema wrth iddi gael ei chyhoeddi, a'i fod yn achub ar bob cyfle i dderbyn cyllid er mwyn helpu i'w hyrwyddo a manteisio ar y buddion i Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. DARPARU BYNGALOS FFORDDIADWY YN SIR GAERFYRDDIN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad am ddarparu byngalos fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn cynnwys y canlynol:-

- Golwg gyffredinol ar yr angen, y galw a'r ddarpariaeth bresennol o ran byngalos fforddiadwy;
- Manylion am ddemograffeg tenantiaid presennol ac ymgeiswyr sy'n dymuno dod yn denantiaid i'r Cyngor;
- Amlinelliad o'r dewisiadau eraill ar gael i helpu tenantiaid hŷn ac anabl i barhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at ddiffyg tai un ystafell wely sydd ar gael yn yr ardaloedd gwledig a nifer yr eiddo dwy ystafell wely sydd ar gael sydd, yn unol â pholisi'r Cyngor, yn cael eu dyrannu i'r rheiny sydd dros 55 oed. Gofynnwyd am eglurdeb o ran gweithredu'r polisi hwnnw mewn perthynas â phobl anabl o dan y terfyn oedran hwnnw sydd am aros yn y gymuned yn agos at gymorth eu teuluoedd.

Cadarnhawyd, er bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r polisi dros 55 wrth ddyrannu, y caniateir eithriadau lle mae cyflyrau meddygol a chorfforol yn berthnasol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio cofrestr tai hygyrch lle gellir gwneud addasiadau i eiddo unigolyn er mwyn diwallu ei anghenion penodol.

- Cafwyd trafodaeth sylweddol o ran y mathau o dai a ddarperir gan y Cyngor a'r angen i ddiwallu anghenion newidiol tenantiaid e.e. symud i dŷ llai ar ôl i'r plant adael, yr angen am dŷ mwy wrth i deuluoedd dyfu. Fel rhan o'r drafodaeth honno cyfeiriwyd at gynnwys yr Is-adran Cynllunio wrth edrych ar yr angen i adeiladu eiddo mewn perthynas â pharatoi'r CDLl diwygiedig.

Wrth ymateb i'r materion a godwyd, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor gan Bennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel mai'r galw mwyaf yr oedd y Cyngor yn ei wynebu oedd darparu llety un ystafell wely ar gyfer pobl sengl. Cyfeiriodd at awgrym y Pwyllgor i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn archwilio'r ddarpariaeth o fyngalos a dywedodd y byddai angen bod yn benodol o ran maes gorchwyl y grŵp a'r canlyniadau posibl. Felly awgrymodd y byddai'n fuddiol, yn y lle cyntaf, iddo baratoi dogfen gwmpasu sy'n adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor ac yn nodi lefel yr adnoddau sydd ar gael i hwyluso'r gwaith o gyflawni unrhyw ganlyniadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL baratoi dogfen gwmpasu ynghylch darparu byngalos fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin i'w chyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol.**

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhesymau a roddwyd dros beidio â chyflwyno dau adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## 9. 30AIN IONAWR, 2018

Cyfeiriwyd at benderfyniad Cofnod 5 a nodwyd yn 'unfrydol'. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod hyn yn anghywir ac y dylai fod wedi darllen 'PENDERFYNWYD'

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 5 yn gofnod cywir yn amodol ar newid y penderfyniadau yng Nghofnod 3 i ddarllen 'PENDERFYNWYD'.**

## 10. 16EG CHWEFROR, 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2018 yn gywir.**

___________________________      ____________________

**CADEIRYDD**      **DYDDIAD**